GWASANAETHAU GOFAL CYCHWYNNOL A CHYMUNEDOL
Adroddiad Diweddaraf

Sut ydym ni'n cyflwyno'r model ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yng Ngogledd Cymru?

Negeseuon Allweddol o Gam 2:

Yn ystod y sesiynau grŵp yn y gweithdy ar 13 Mai, datblygwyd ymhellach y meini prawf cynllunio, yn erbyn yr hyn y dylid asesu unrhyw newidiadau mewn gwasanaeth gofal cychwynnol a chymunedol yn y dyfodol. Cytunodd y grwpiau mai gofal wedi'i ganoli ar y claf a rhoi grym i gleifion oedd y ddau faen prawf pwysicaf wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Cafwyd derbyniad da gan y ddau grŵp i'r cyflwyniad a roddwyd gan aelodau tîm ardal o Wynedd, gyda chwestiynau a thrafodaeth o gwmpas y themâu canlynol:

- Mynediad at gofnodion cleifion ar draws gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol;
- Datblygiad gweithlu; sgiliau a hyfforddiant;
- Rolau nyrsys cymunedol a nyrsys practis yn y dyfodol;
- Y deilliannau a'r buddion i gleifion o'r model ardaloedd, a sut bydd y rhain yn cael eu mesur;
- Y rhwystrau i fyw bob dydd gyda chyflyrau hir dymor;
- Anghenion datblygiad y sefydliad a materion arweinyddiaeth;
- Datblygu cydweithio ymhellach ar draws y gwasanaethau nyrsio, MT, sector gwirfoddol a gofal cymdeithasol.

Trafodwyd y syniad o ddatblygu 'canolbwynt cyfathrebu' gan y ddau grŵp, gyda chytundeb cyffredinol fod gwerth mewn ystyried y cysyniad ymhellach. Mynegwyd pryder gan rai y dylai'r 'canolbwynt', petai'n cael ei ddatblygu, ychwanegu at a gwella systemau eraill sydd eisoes yn eu lle a pheidio â dyblygu gwasanaethau cyfredol.

Blaenoriaethau gwaith Cam 3:

Mae'r grŵp craidd Gofal Cychwynnol a Chymunedol wedi ystyried y negeseuon allweddol o'r digwyddiad ar 13 Mai a'r adborth a dderbyniwyd.

Y bwriad erbyn diwedd cam 3 yw:

- Cytuno ar egwyddorion model ardaloedd ar gyfer Gogledd Cymru, gyda chynigion o ran darpariaeth gwasanaeth GIG, strwythurau rheoli ac arweinyddiaeth;
- Cyflwyno cynigion i ddatblygu canolbwynt cyfathrebu ar gyfer Gogledd Cymru;
- Darparu disgrifiad cynhwysfawr o ddarpariaeth gwasanaeth cyfredol y GIG, gyda manylion sylfaenol o wasanaethau gofal cymunedol eraill, megis gwasanaethau gofal cymdeithasol a sector gwirfoddol;
- Cael gwell dealltwriaeth o'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cychwynnol a gwasanaethau cymunedol;
- Cytuno ar y camau nesaf i symud yr holl gynigion ymlaen, gan gynnwys y trefniadau i barhau i gydweithio gyda budd-ddeiliaid.